/Hydref 2008
Cylchlythyr Chwarterol
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

www.ebcpcw.org.uk

Rhwyd-waith rhifyn 04

FYNY FRY

Fuoch chi ar wyliau tramor dros yr haf? Wnaethoch chi hedfan o faes awyr Caerdydd tybed?

Os do, efallai y daethoch ar draws y Parchedig Duncan Ballantyne, Caplan Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd.

Mae Duncan yn treulio deuddydd yr wythnos yn y maes awyr, yn gofalu am deithwyr a gweithwyr. Mae'n bresenoldeb Cristnogol mewn maes awyr sy'n delio â dwy filiwn o deithwyr bob blwyddyn.

Ond gofalu am staff y maes awyr sy'n cymryd llawer o sylw Duncan o ddydd i ddydd. "Mae 'na tua mil o weithwyr yma," meddai. "Dwi'n trio sefydlu perthynas â nhw fel bo nhw'n gwybod 'mod i ar gael am sgwrs neu gyngor neu weddi."

"I fi, cymryd yr eglwys i'r gweithle ydi fy ngwaith – mae pobl yn gweithio yma, yn treulio rhan fawr o'u bywydau yma, ac mae'n bwysig iddyn nhw gael gwybod bod Crist yn eu caru."

"Mae nhw'n gwybod nad y maes awyr sy'n fy nghyflogi, mae nhw'n deall 'mod i ddim yn trio busnesa. Os oes na broblem, dweud, yn yr adran cesys, fedra'i fynd at eu rheolwr neu hyd yn oed at y rheolwr gyfarwyddwr os oes angen."

Wrth grwydro o gwmpas prif adeilad y maes awyr, mae Duncan yn dweud helo neu'n sgwrsio â gweithwyr diogelwch, merched ar y ddesg wybodaeth, y bechgyn tu ôl i gownter Burger King – mae'n amlwg ei fod yn ffigwr cyfarwydd iawn, hyd yn oed yn y rhannau o'r maes awyr lle nad oes mynediad i'r teithwyr.

Ers dod i dde Cymru naw mlynedd yn ôl, mae Duncan wedi gweld newidiadau mawr yn y maes awyr. Mae hyn yn golygu y gall hedfan o'i weithle yn ôl adref i weld ei deulu ar Ynys Bute yn yr Alban.

Ond weithiau mae gwyliau yn troi'n hunllef, ac mae galw ar Duncan i helpu teithwyr sydd wedi profi trasiedi neu brofiad brawychus tra ar eu gwyliau.

"Yn anffodus dwi wedi gweld ambell i achos lle mae rhywun wedi marw ar ei wyliau neu ar yr awyren," meddai. "Dwi yma i gynnig cyngor a gweddi, ond mae isio help ymarferol hefyd – ffeindio ffordd adre ar gyfer gweddill y teulu, er enghraifft."

Felly sut mae'r gwaith yn y maes awyr yn wahanol i weinidogaeth arall Duncan, mewn tair eglwys gyfagos?

"Mae'n reit wahanol. Pobl capel – mae ganddyn nhw o leia' rhywfaint o wybodaeth am yr efengyl. Ond does gan lot o bobl yma ddim o hynny felly dwi'n trio eu cyflwyno nhw i gariad Duw."

"Mae popeth yma yn costio, mae gan bawb dargedau i'w cyrraedd, ond dwi'n gallu dweud wrthyn nhw 'ti'n werthfawr', bod rhywun yn poeni amdanyn nhw. Does gan Dduw ddim targedau iddyn nhw – da ni gyd yn gyfartal yn ei olwg O."

Dydd Sul 2 Tachwedd yw Sul Cenhadol Eglwys Bresbyteraidd Cymru: mae gan yr Eglwys dros ugain o weithwyr cenhadol ar hyd a lled Cymru. A wnewch chi gofio amdanynt yn eich gweddïau, os gwelwch yn dda.

GWAITH IEUENCTID YN LLWYDDO

Mae bron i flwyddyn bellach ers i Aled Ifan gael ei benodi yn Swyddog Plant ac Ieuenctid Bangor a'r Cyffiniau. Mae tua cant o blant ac ieuenctid yn yr ofalaeth ac mae pethau yn mynd o nerth i nerth.

Bellach mae clwb plant a chlwb ieuenctid yn rhedeg yn llwyddiannus iawn ym Mangor a Felinheli, tra bod criw o wyth yn mynychu clwb ym mhentref bach Abergwyngregyn.

"Mae'n wych gweld y niferoedd sy'n mynychu'r clybiau yn cynyddu, ond y boddhad mwyaf i mi oedd cael y cyfle i sefydlu clwb rheolaidd yn Abergwyngregyn," meddai Aled Ifan. "Pedwar teulu sy'n mynychu'r clwb ac mae'r pedwar teulu hefyd yn cymeryd rhan mewn oedfaon yn rheolaidd bellach. Mae'n rhoi bywyd newydd i'r eglwys a gobaith am ddyfodol."

Yn ystod y tymor dilynodd y clybiau nifer o themâu fel Gemau Olympaidd, Plismyn Palesteina a'r "Cross Factor". Cafwyd hefyd gyfle am ambell i farbaciw a thrip i fowlio deg. "Gawson ni nosweithiau pitsa a ffilm, a hyd yn oed cyfle i ffilmio rhaglen deledu eu hunain," meddai Aled Ifan.

Yn ôl Aled Ifan, mae amrywiaeth yn bwysig. "Mae'n bwysig fod y plant a'r bobl ifanc yn cael amser i fwynhau cymdeithasu yn ogystal a dysgu," meddai. "Roedd capeli yn arfer bod yn ganolbwynt cymdeithasol i'r gymuned ac nid yn unig man i addoli a dysgu. Dwi'n ceisio creu awyrgylch tebyg yn y clybiau acw hefyd. Fod y capel yn fwy na addoldy ac ysgoldy. Ei fod yn ganolbwynt i fywydau'r plant ac ieuenctid." Fel y rhan fwyaf o gapeli, problem gynyddol o fewn yr ofalaeth yw denu a chadw gafael ar y criw dros un ar bymtheg mlwydd oed.

"Rydw i a'r gweinidog, y Parchedig Eric Jones, yn gofalu am Ddosbarthiadau Derbyn," meddai Aled Ifan, "ac fe gawsom dderbyn 13 o ieuenctid y llynedd. Er hynny, 'da ni ddim wedi cael cyfle hyd yma i sicrhau bod yr ifanc yn cael digon o waith a chyfle i fod yn rhan o waith yr eglwys yn gyson."

"Rydym yn ceisio agor ein drysau ar nos Sul i gael paned a sgwrs gyda'r bobl ifanc, a'r gobaith ydi datblygu hyn i fod yn oedfaon pobl ifanc dros y misoedd nesaf. Mi fyddan nhw'n oedfaon wedi eu cynllunio ganddynt gyda rhai ohonynt yn arwain."

"Llwyddodd Aled i fwy na dyblu y niferodd a ddaw i'r clybiau," meddai Eric Jones. "Mae wedi defnyddio ei ddawn gyda chyfrifiaduron trwy ofalu am fas data cyflawn ac agor gwefan i'r Ofalaeth, ac mae ei ddawn gerddorol yn gymorth gyda'r grwpiau offerynol."

"Dim ond un plentyn oedd ar lyfrau'r eglwys yn Abergwyngregyn, ond wedi'r cenhadu o fewn y pentref y mae gennym obaith bellach am ddyfodol."

Diolch i'r Parchedig Eric Jones ac Aled Ifan

DILYN ESIAMPL EIN PENCAMPWR

Munud i Feddwl gyda Haydn Thomas, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol

Llongyfarchiadau mawr i Nicole Cooke, Tom James, Geraint Thomas, David Davies a Tom Lucy ar eu llwyddiant ysgubol yn y Gemau Olympaidd yn Beijing.

Teilwng oedd y derbyniad a gawsant ym Mae Caerdydd ar ôl 'dod adre'. Ennill medal ac ennill edmygedd am eu campwaith. Canmoler hwy am osod Cymru fach ar fap mawr y byd a chwarae teg i Tom James am chwifio'r Ddraig Goch yn ei funudau buddugoliaethus.

Ystyrier pob cystadleuydd, pa un ai beicio, rhwyfo, hwylio, nofio neu redeg oeddent, mai nid ar chwarae bach y daethant i'r brig ac yn bencampwyr byd. Bu 'na gyfnod hir o baratoi, gydag ymarfer cyson, dyfalbarhad, uchelgais, ewyllys i lwyddo, canolbwyntio ac aberthu.

Mae 'na bobl ifanc sy'n gweithio mewn meysydd eraill sydd wedi llwyddo a gwneud enw iddynt eu hunain, gyda'r un ymdrechion ac egni a oedd yn nodweddiadol o'r uchod. Maent yn gosod esiampl dda sy'n haeddu sylw. Gobeithio bydd eu llwyddiant yn sbardun i blant, ieuenctid ac i bobl o bob oedran, mewn gwirionedd, i fod yn bencampwyr.

Mae yna bobl ifainc sydd yn ddigyfeiriad, ac yn amddifad o ddylanwadau da. Darllenwn amdanynt yn troedio ein strydoedd heb ddim i'w wneud ond difrodi, lladd a lladrata a chymryd cyffuriau sy'n pylu eu llygaid pan ddylent fod yn pefrio fel llygaid y pencampwyr wrth dderbyn eu medalau.

Gobeithio bydd llwyddiant Beijing yn eu herio ac yn dylanwadu arnynt fel y gwelont na ddaw dim heb ymdrech ac y daw llwyddiant ar gefn gwaith caled ac ymroddgar. Dilynwn esiampl ein pencampwyr.

Af gam ymhellach gan gyfeirio at yr esiampl sydd yn Iesu Grist. Cofier mai dyn ifanc oedd ef, a aeth o amgylch gan wneuthur daioni ac a roddodd ei hun yn aberth er mwyn i ni gael byw. I ni, sy'n aelodau o eglwys Iesu Grist, mae 'na wers yma. Gelwir arnom i ymarfer ein ffydd a'n cred gyda'r un dycnwch a dyfalbarhad, i beidio rhoi fyny yn wyneb rhwystrau, gwrthwynebiadau a thrai, ond i ddal ati.

"Gan roi heibio bob pwys, trwy amynedd, rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni; Gan edrych ar Iesu, Pen-tywysog a Pherffeithydd ein ffydd." (Hebreaid 12:2-3)

Duncan Ballantyne wrth ei waith

CAPEL NEWYDD YN AGOR EI DDRYSAU

"Cyffrous" yw'r gair gorau i ddisgrifio'r cynlluniau sydd ar y gweill yng Nghapel y Rhos, Bae Colwyn.

Mae Capel y Rhos yn eglwys newydd a ffurfiwyd wedi i dair eglwys leol – Hermon, Bethlehem a Nasareth – uno mewn adeilad newydd a godwyd ar safle hen gapel Hermon.

Codwyd yr adeilad newydd trwy gymorth a chyngor gwerthfawr Tom Griffiths, un o'r aelodau sydd yn syrfewr siartredig, ac mae swyddogion yr eglwys newydd yn bwriadu cynnal amrywiaeth o weithgareddau newydd yno, gan ganolbwyntio ar estyn allan i'r gymuned.

"Da ni wedi dod o dri capel i un capel oherwydd bod y tri arall ddim yn llwyddo – yn colli aelodau ac ati," meddai Mair Pope, yr ysgrifenyddes.

"Rhaid i ni edrych ar ffyrdd newydd o weithredu. Mae gennan ni is-bwyllgor yn edrych ar ffyrdd newydd o addoli, ond mae 'na le i addoliad traddodiadol hefyd."

Mae'r addoldy newydd yn dal 120, a pe bai'r lle'n orlawn, mae yno system gamera arbennig sy'n darlledu lluniau byw o'r addoldy i sgrîn yn yr ystafell gyfarfod, sy'n dal hyd at 50.

"Da ni'n awyddus i'r gymuned yn gyffredinol i ddefnyddio'r adeilad" meddai Mair Pope, gan egluro bod yno gegin a swyddfa, yn ogystal â lle i gysylltu hyd at bum cyfrifiadur er mwyn gallu cynnal cyrsiau. Bydd boreau Coffi a Chlonc, cyfarfodydd Cymdeithas Pawb a chyngerddau yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn codi arian at achosion da lleol a sefydlu presenoldeb yn y gymuned.

Cynhaliwyd yr oedfa gyntaf ym mis Medi, a bydd penwythnos o ddathlu yn cael ei gynnal ym mis Hydref. Un o'r uchelbwyntiau fydd cyngerdd yng nghwmni artistiaid yn cynnwys Piantel.

"Dwi'n gweld yr adeilad hardd yma fel arwydd o obaith ynghanol y cefnu sydd wedi bod ar grefydd a'r Eglwys yn y Gymru gyfoes," meddai'r gweinidog, y Parchg R J Owen Griffiths.

"Dwi'n gallu tystio i wirionedd yr adnod a geir ym mhroffwydoliaeth Nehemeia '...oherwydd yr oedd gan y bobl galon i weithio.' Fy ngweddi yw y bydd yr Arglwydd yn bendithio ein hymdrechion i estyn allan i'r gymdeithas, i geisio cael mwy o bobl i ddod atom ac iddynt gyflwyno eu bywyd i Grist ein Gwaredwr."

Mae llun o Gapel y Rhos i'w weld ar dudalen 1.

"Dwin gweld yr adeilad hardd yma fel arwydd o obaith ynghanol y cefnu sydd wedi bod ar grefydd a'r eglwys yn y Gymru gyfoes"

BETH ALLA'I EI WNEUD?

Mae'r materion yma yn ein heffeithio i gyd – gallwn helpu i newid pethau!

12-19 Hydref yw **Wythnos Dyled Byd-Eang,** ymgyrch sy'n cael ei threfnu gan y Jubilee Debt Campaign er mwyn annog y llywodraeth i ddileu dyledion gwledydd tlota'r byd. Beth am dynnu sylw at yr ymgyrch yn eich eglwys? Neu beth am gymryd rhan yn nigwyddiad **Sefyll a Gweithredu yn Erbyn Tlodi**? Rhwng 17-19 Hydref bydd miliynau o bobl o gwmpas y byd yn sefyll am un funud i dynnu sylw at y ffaith bod 50,000 o bobl yn marw oherwydd tlodi bob dydd. Beth am wneud hyn yn y capel ar fore dydd Sul? Ewch i www.standagainstpoverty.org am fwy o wybodaeth.

Ydych chi'n poeni am **gynnwys rhaglenni teledu a'r radio**? Oes yna hysbysebion, delweddau neu eiriau sydd yn gwneud i chi, fel Cristion, bryderu? Cofiwch – gallwch fynegi eich barn i Ofcom, rheoleiddiwr y diwydiant darlledu, drwy ffonio 020 7981 3042 neu drwy ysgrifennu at

Ofcom, Ty Riverside, 2a Heol Bont Southwark, Llundain, SE1 9HA. Os yw aelodau eich eglwys yn cytuno â chi, beth am gysylltu â'r henaduriaeth leol i fynegi'ch barn? www.ofcom.org.uk

"A pheidiwch chwithau, frodyr, â blino ar wneud daioni." (2 Thesaloniaid 3:13)

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r pynciau uchod, cysylltwch â ni!

Souled Out

GWNEUD BYD O WAHANIAETH

Mae Llinos Roberts yn Weithwraig Gymuned Gristnogol yn Nhrefor, Pen Llyn. Ym mis Gorffennaf aeth Llinos â chriw o ardal Trefor a Chaernarfon i Popesti, Romania, i weithio yng nghanolfan a chartref plant y Romanian Foundation for Children and Families (RFCC). Dyma ychydig o'r hanes.

Ar y bore cyntaf cawsom gyfle i gwrdd â staff yr RFCC a chael gwybod mwy ganddynt am y mudiad arbennig hwn. Hawliau plant yw sylfaen gwaith y RFCC ac mae'r gwaith pell-gyrhaeddol hwn yng nghefn gwlad Romania yn waith pwysig iawn. Yn Popesti mae'r RFCC wedi sefydlu canolfan arbennig sydd yn cynnig peth addysg i'r plant sydd ddim yn medru cyrraedd yr ysgol, cymorth gyda gwaith cartref, cymorth i deuluoedd gyda phroblemau gael gweld seicolegwyr addysg neu gownselwyr. Does dim dwr yn llawer iawn o'r tai yn yr ardal, felly mae'r ganolfan yn medru cynnig un gawod i'r teuluoedd hynny, neu gyfle i olchi dillad yn y peiriant golchi. Mae'r ganolfan hefyd yn cynnig gweithgareddau gwerthfawr eraill ar gyfer y plant a'r bobl ifanc. Nid yw'r gymdeithas yn cyd-dynnu bob amser felly mae'n bwysig bod y plant o wahanol gefndiroedd ethnig yn cael cyfle i gymdeithasu gyda'i gilydd, mewn lle saff.

5000 o bobl sydd yn byw yn Popesti, ac mae yna broblemau cymdeithasol enfawr yno. Mae gwaith y ganolfan yno i hybu holl blant y pentref ddod at ei gilydd i gymdeithasu, i dderbyn ei gilydd a bod yn gyfartal bob amser. Enw'r ganolfan yn Popesti yw Prietenia sy'n golygu cyfeillgarwch, a dyna yn sicr gafwyd ar y daith hon eto eleni.

Bu'r criw yn brysur iawn am wythnosau yn cynnal gweithgareddau i godi arian ar gyfer cynnal gweithgareddau yn y Ganol fan yn Popesti. Roedd ffrindiau, teuluoedd, cymdogion, cynulleidfaoedd a siopwyr wedi cyfrannu mor hael, roedd yn amlwg y byddem yn medru cynnig rhywbeth ychwanegol arwahan i adnoddau ar gyfer plant Popesti.

Roedd y croeso gawsom yn amlwg ar wynebau'r plant wrth i ni gyrraedd, er yn swil ar y dechrau buan iawn cafwyd ymateb a hwythau wedi gwirioni gweld ein bod ni wedi dod a peli iddyn nhw! Roedd y plant yn hapus i ymuno gyda'r gweithgareddau o ddydd i ddydd, a'r rhifau'n cynyddu bob dydd. Credaf bod gennym o leia 60 yn cymryd rhan yn dawns werin Jac y Do ar un pryd ac roedd rhaid chwarae'r gerddoriaeth tua pump gwaith er mwyn i bawb gael cyfle i sgipio lawr y canol! Trwy gemau, cerddoriaeth a dawnsio mae tynnu plant at ei gilydd a profodd y gweithgareddau i gyd nad oedd rhagfarn na gwahaniaeth rhwng neb.

Ardal difreintiedig iawn yw ardal Popesti a gyda haelioni pobl Cymru cawsom gyfle i gynnig profion llygaid i blant y Cartref Plant. Roedd yn brofiad blin, anghyfforddus, dieithr a newydd iawn i'r plant. Allan o 47 roedd 19 angen sbectol, ac mewn ychydig wythnosau bydd gan y plant a'r bobl ifanc yma sbectol fydd yn gwneud gymaint o wahaniaeth i'w bywyd a'u haddysg. Roedd yna rai yn anllythrennog a bu i'r optegydd ganfod bod tri neu bedwar yn ddall mewn un llygad – heb yn wybod i neb ar hyd y blynyddoedd.

Mae Ilda, Cyfarwyddwr y Ganolfan, yn hyfforddi naw o wirfoddolwyr ifanc. Ein gobaith dros y flwyddyn nesaf yw parhau i godi arian er mwyn medru eu gwahodd i Gymru ac iddyn nhw gael cyfle i weld gwaith gwirfoddol yn digwydd gyda plant a phobl ifanc yma, i gael hyfforddiant sylfaenol a chyfle i flasu diwylliant arbennig Cymru.

Llinos Roberts

Dawnsio gwerin Cymreig yn Romania

SOULED OUT 08

Beth well na threulio wythnos efo 70 o bobl eraill, a'ch herio i fyw dros Grist yn eich ysgol, prifysgol neu'ch gweithle? Wel, dyma fy realiti i wrth i mi ymuno â ffrindiau hen a newydd yng Ngholeg y Bala ar gyfer un o wythnosau mwyaf cyffrous y flwyddyn – Souled Out 08!

Bob blwyddyn dwi'n edrych ymlaen at Souled Out fel plentyn 6 oed yn edrych ymlaen at ymweliad Siôn Corn. Ond nid ar ddyn mewn siwt goch dwi'n hoelio fy ngobeithion, ond ar wythnos gyfan o fod gyda ffrindiau a chyfarfod â Duw yr holl greadigaeth!

Doedd eleni ddim yn eithriad. Wrth i ni ddod at ein gilydd, daeth Duw atom, gan ddefnyddio'r wythnos mewn ffordd rymus i'n dysgu, herio a'n hannog ar ein llwybr Cristnogol. Ein thema eleni oedd "Crist yw Byw", yn canolbwyntio ar Philipiaid 1 a 2.

Dysgom sut yr ydym yn ennill cyfoeth Duw ar draul Crist, ac felly cawsom ein hannog i fyw dros lesu ym mhopeth yr ydym yn ei wneud a'i ddweud, fel y gall eraill weld cymeriad lesu ynom. Cefais fy herio gan Philipiaid 2:12-13: "gweithredwch, mewn ofn a dychryn, yr iachawdwriaeth sy'n eiddo i chwi; oblegid Duw yw'r un sydd yn gweithio ynoch i beri i chwi ewyllysio a gweithredu i'w amcanion daionus ef."

Mae'n gysur mawr i mi wybod bod Duw gyda mi bob dydd, yn fy helpu i fyw yn ôl ei ewyllys, yn fy helpu i wneud penderfyniadau a chyd-gerdded gydag o. Wrth i Dduw weithio drwyof, rhaid i mi wneud amser i ganolbwyntio ar lesu ac i ganfod ei bwrpas yn fy mywyd. Mae'n bartneriaeth, a berffeithwyd gan farwolaeth lesu, fel reidio tandem gyda Duw!

Bendithwyd nid yn unig ein addoli a'n dysgu ond hefyd ein gweithgareddau: o hufen iâ ym Metws y Coed, i rownderi ar draeth Harlech, i siopa yng Nghaer a'r disco mwyaf anhygoel a welodd y byd erioed!! Mae'n wir dweud bod ein wythnos yn llawn hwyl, chwerthin, ac yn fwy na dim, presenoldeb grymus ein Duw. Os mai eleni oedd y Souled Out gorau eto, yn llawer gwell na'n disgwyliadau, alla'i ddim aros i weld beth sydd gan Ddiw ar ein cyfer yn y dyfodol.

Becca Davies, Castell Nedd

YN BRIN O SYNIADAU?

Eisiau emynau newydd, cyflwyniadau newydd, adnoddau newydd? Dyma rai syniadau:

// www.amserbeibl.org – tair blynedd o wersi Beiblaidd wedi eu hanelu at blant 4-6 oed, 7-9 oed, 10-12 oed a 13+ oed.

// www.visionforchildren.com – detholiad o storïau Beiblaidd Cymraeg a Saesneg ar PowerPoint. Mae'r deunydd yn lliwgar a deniadol ac yn gyfrwng effeithiol a chyfoes i gyflwyno hanesion y Beibl i blant.

Bydd Amser Beibl ac adnoddau Cymraeg Vision For Children yn cael eu lansio yng Ngoleg y Bala am 1.45 dydd Mercher 12 Tachwedd.

// www.biblesunday.org – amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer Sul y Beibl 2008

// Y Cyntaf a'r Olaf – llyfr a CD o ganeuon newydd sbon gan Nia Williams, Swyddog Addysg ac Anoddau Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Bydd yn Cael ei lansio yn Neuadd Bentref Llannefydd am 7yh ar 7 Tachwedd."

200 LLAIS YN CANU MAWL I DDUW

Bryn Terfel gafodd y fraint o gyflwyno cwpan a gwobrau ariannol i bump o gorau ysgolion uwchradd Sir Fôn yng ddiweddar.

Yng Nghystadleuaeth Corau Mawl yng Nghapel Mawr, Porthaethwy, roedd gofyn i'r pump ysgol ganu tair emyn o'u dewis. Roedd hawl ganddynt i ddod ag offerynnau eu hunain yn hytrach na chanu i gyfeiliant yr organ.

"Roedd gwrando ar tua 200 o bobl ifanc yn canu mawl i Dduw yn brofiad cynhyrfus a dyrchafol," meddai'r Parchedig Geraint Roberts, trefnydd yr ornest a gweinidog Capel Mawr. Llwyddodd i gasglu £4,000 o nawdd ar gyfer y gystadleuaeth gan fusnesau, eglwysi ac unigolion.

Roedd cwpan a £400 yn wobr i'r côr buddugol, sef côr Ysgol Uwchradd Llangefni, a gwobrau hael i'r pedwar côr arall hefyd.

Bydd uchafbwyntiau y gystadleuaeth i'w clywed ar BBC Radio Cymru cyn bo hir.

MASNACH DEG: YDYCH CHI'N CYMRYD RHAN?

Cymru yw'r wlad fasnach deg gyntaf erioed.

Ac mae hynny yn rhannol diolch i eglwysi ar hyd a lled Cymru sydd wedi bod yn defnyddio ac yn hybu nwyddau masnach deg. Mae rhai o aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru hefyd ar flaen y gâd yn yr ymgyrch i hyrwyddo masnach deg.

Mae Jan Tucker, cyfarwyddwraig siop Fair Do's yng Nghaerdydd, yn aelod o eglwys Park End. Hi oedd y seithfed person i ymuno â Traidcraft, sef cwmni masnach deg mwyaf Prydain, ym 1979. "Rydym wedi cael gymaint o lwyddiant yng Nghymru dros y ddwy flynedd diwetha', gyda cymorth ariannol o'r Cynulliad, llawer o waith staff a gwirfoddolwyr, yn y capeli ac yn yr ysgolion," meddai Jan. "Mae'n braf i ddweud bod ni'n byw yng ngwlad masnach deg!" www.fairdos.com

Mae Eglwys Gloddaeth Unedig, Llandudno, yn cydweithio ag eglwys arall gyfagos gan reoli dwy siop: siop lyfrau Cristnogol Beacon Books a siop fasnach deg Kingdom Krafts. Mae'r ddwy o dan yr un to ar Stryd Madoc ac maent yn trafod hyd at £50,000 y flwyddyn. www.kingdomkrafts.com

Ydy eich eglwys chi yn defnyddio nwyddau masnach deg? Mae yfed te a choffi masnach deg – heb sôn am yr holl nwyddau eraill sydd ar gael – yn ffordd rwydd o sicrhau bod bod amaethwyr mewn gwledydd sy'n dat-blygu yn cael pris teg am eu cynnyrch. Mae symudiad masnach deg hefyd yn annog defnyddio dulliau cynaliadwy o ffermio. Amcangyfrir bod dros 7 miliwn o gynhyrchwyr difreintiedig a'u teuluoedd wedi elwa drwy gefnogaeth masnach deg.

HUD A LLEDRITH!

Tra mae efengyl yr Arglwydd yn ddigyfnewid, rhaid i ni newid y ffordd rydym yn lledaenu'r gair wrth i'r oes newid.

Rydym yn byw mewn byd lle mae dylanwad cyfathrebu gweledol i'w weld ym mhob rhan o'n bywydau.

Er mwyn helpu arweinwyr ieuenctid ac athrawon i fanteisio ar ddulliau gweledol o gyfathrebu, bydd hyfforddiant ar sut i gyfathrebu'r efengyl mewn ffordd weledol – gan gynnwys hud a lledrith – yn cael ei gynnal yng Ngholeg y Bala ar Dachwedd 11 a'r 12 o dan arweiniad Steve Macbeth.

Mae Steve yn Gristion ac yn gweithio'n broffesiynol yn ei faes. Ef yw cyfarwyddwr "Tricks for Truths", sy'n darparu deunyddiau gweledol a hyfforddiant ar gyfer pobl sy'n dymuno gwella eu sgiliau wrth gyfathrebu'r efengyl.

"Mae hwn yn wahanol ac mae 'na lot o ddiddordeb wedi bod yn barod", medddai Gwyn Rhydderch, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid. "Mae na elfen o 'entertainment' ynddo fo! Y syniad ydi defnyddio'r gweledol i gyflwyno Iesu Grist i blant ac ieuenctid – ac oedolion hefyd."

Peidiwch â cholli'r cyfle gwych hwn! Cysylltwch â Choleg y Bala nawr ar 01678 520565 neu colegybala@ebpcw.org.uk am fwy o wybodaeth ac i gadw lle. www.tricksfortruth.com

DU A GWYN?

Ydy, mae Rhwydwaith 04 yn edrych yn wahanol!

Beth ydy'ch barn ar ei newydd wedd? Rhowch wybod i ni – mae ein manylion cyswllt ar y dde.

DIWYLLIEDIG?

Diddordeb mewn:

// Llenyddiaeth

// Brwydr yr iaith

// Crefydd

// Cerddoriaeth

// Celfyddyd

// Cymdeithas?

Oes?

Y TRAETHODYDD

Gwledd o ddarllen am £3 y rhifyn

Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth neu

ffurflen danysgrifio

Jan Tucker yn siop fasnach teg Fair Do's

DYDDIADUR

Hydref

12-19 Wythnos Dyled Byd-Eang

13 Hyfforddiant athrawon ysgolion Sul a gweithwyr plant ac ieuenctid: Seion, Llanrwst, 6.30yh

Tachwedd

7 Lansio 'Y Cyntaf a'r Olaf', 7yh, Neuadd Bentref Llannefydd

7-9 Penwythnos Blaenoriaid, Trefeca

7-9 Penwythnos Ieuenctid, Coleg y Bala

11-12 Hyfforddiant "Tricks for Truths", Coleg y Bala

12 Lansio 'Amser Beibl' a 'Vision for children', 1.45yh, Coleg y Bala

Rhagfyr

1 Diwrnod Rhyngwladol AIDS

Ionawr

2-4 Aduniad Souled Out, Coleg y Bala

Mae mwy o fanylion ar ein gwefan: www.ebcpcw.org.uk

POS

Gosodwch y llythrennau ym mhob colofn yn y blychau oddi tanynt i ffurfio adnod Nadoligaidd. Nid yw'r llythrennau mewn trefn a dylid defnyddio pob llythyren unwaith yn unig! Mae sgwariau duon yn dynodi diwedd gair. Pob lwc!

A E	F G D H	W D A Y	N N I D	W D W	Y Y	W D W Y	N R A	I R	E N M	C H D E	R S W H	W E R W	I I F	Y A	R D H
■							■		■					■	
					■			■						■	
					■								■		
■				■				■							■

SYLWADAU? NEWYDDION? HYSBYSEBION?

Rhowch wybod!

Eglwys Bresbyteraidd Cymru,
81 Heol Merthyr,
Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 1DD
02920 627465
swyddfa.office@ebcpcw.org.uk